# Ein huchelgais i ddatblygu sector bwyd a diod Cymru ymhellach – Dadansoddiad o ganfyddiadau'r ymgynghoriad

Tachwedd 2019 v1.0

Mae copi o'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Donald Webb
Cyfarwyddwr Prosiect
Donald@brookdaleconsulting.co.uk
07813 892090

# Contents


| | | |
|---|---|---|
| 1. | Cyflwyniad | 1 |
| 2. | Math o Ymatebwyr | 2 |
| 3. | Canfyddiadau Cyffredinol | 3 |
| 4. | Canfyddiadau ar y Weledigaeth a'r Genhadaeth | 4 |
| 4.1 | Anghytuno, gwneud yn wahanol | 5 |
| 4.2 | Sylwadau eraill | 5 |
| 5 | Canfyddiadau yn ôl Nodau Allweddol - Datblygu ein Busnesau | 6 |
| 5.1 | Anghytuno, gwneud yn wahanol | 6 |
| 5.2 | Gweithgaredd ychwanegol sydd ei hangen | 7 |
| 5.3 | Allwch chi gyfrannu? | 7 |
| 6 | Canfyddiadau yn ôl Nodau Allweddol – Budd i'n Pobl a'n Cymdeithas | 8 |
| 6.1 | Anghytuno, gwneud yn wahanol | 9 |
| 6.2 | Gweithgaredd ychwanegol sydd ei hangen | 9 |
| 6.3 | Allwch chi gyfrannu? | 10 |
| 7 | Canfyddiadau yn ôl Nodau Allweddol – Hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd | 11 |
| 7.1 | Anghytuno, gwneud yn wahanol | 12 |
| 7.2 | Gweithgaredd ychwanegol sydd ei hangen | 12 |
| 7.3 | Allwch chi gyfrannu? | 13 |
| 7.4 | Sylwadau eraill | 13 |
| 8 | Canfyddiadau ar dargedau CAMPUS | 14 |
| 8.1 | Sylwadau cyffredinol | 14 |
| 8.2 | Materion yn ymwneud â thargedau | 14 |
| 8.3 | Targedau a dangosyddion eraill i'w hystyried | 15 |
| 9 | Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad | 17 |

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r ymgynghoriad ar gynigion ar y cyd gan Lywodraeth Cymru a Bwrdd Diwydiant Bwyd a Diod Cymru ar gyfer cynllun strategol i ddatblygu sector bwyd a diod Cymru ymhellach ar gyfer y cyfnod 2020-2026.

Mae'r cynllun newydd yn anelu i adeiladu ar y cynllun gweithredu blaenorol 'Tuag at Dwf Cynaliadwy', oedd â tharged o gael twf yn nhrosiant y sector i £7 biliwn erbyn 2020. Mae uchafbwyntiau'r cynllun blaenorol yn cynnwys:

- Trosiant o £6.8 biliwn erbyn 2018, i fyny o £5.7 biliwn yn 2013
- 16 enw bwyd gwarchodedig. I fyny o 5 yn 2013,
- £539 miliwn o allforion, i fyny o £399 miliwn yn2013

Mae gan y cynllun newydd weledigaeth a chenhadaeth, tri nod allweddol a thargedau CAMPUS yr ymgynghorwyd arnynt, fel a ganlyn:

- **Datblygu ein busnesau** - I gynyddu maint a gwerth y sector, a chynhyrchiant busnesau – *wedi'i fesur yn ôl cynnydd mewn trosiant uwchlaw CPI a thwf mewn GYC yr awr*
- **Budd i'n pobl a'n cymdeithas** - helpu busnesau i gynnig manteision ehangach drwy waith teg, datblygu sgiliau a defnyddio adnoddau'n gynaliadwy – *wedi'i fesur gan gynnydd yn nifer y busnesau sy'n llofnodi'r Adduned Sgiliau, gan ymuno â Courtauld 2025 a thalu cyflog byw go iawn Cymru.*
- **Hyrwyddo Cymru fel cenedl fwyd** – i roi llwyfan i'r sector, adeiladu ar lwyddiant Blas Cymru i agor cyfleoedd masnach a marchnadoedd newydd, datblygu safonau uchel a dathlu llwyddiant – *wedi'i fesur yn ôl nifer y Gwobrau Great Taste, achrediadau'r diwydiant, sgoriau hylendid bwyd a buddsoddiad uniongyrchol o dramor.*

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng 23 Gorffennaf a 15 Hydref 2019. Gwahoddwyd ymatebion drwy e-bost neu drwy system ar-lein. Cafwyd digwyddiadau ymgynghori hefyd lle casglwyd safbwyntiau. Ar ôl i'r ymgynghoriad gau, dadansoddwyd y canfyddiadau.

Cafwyd cyfanswm o 86 o ymatebion. Roedd ychydig o dan hanner yr ymatebion drwy'r system ar-lein yn rhoi atebion penodol i gwestiynau'r ymgynghoriad (gweler Atodiad 1). Roedd hanner arall yr ymatebion e-bost, gyda rhai yn ateb cwestiynau'r ymgynghoriad, ac eraill yn cynnig pwyntiau mwy cyffredinol. Adolygwyd pob un o'r ymatebion, a lle roedd hynny'n bosibl, cofnodwyd pwyntiau a wnaed o dan y cwestiynau penodol. Lle roedd pwyntiau mwy cyffredinol wedi'u gwneud, cawsant eu coladu a'u bwydo i mewn i'r man priodol.

## 2. Math o Ymatebwyr

Cafodd yr 86 ymateb eu categoreiddio yn ôl y math o ymatebydd. Mae Tabl 2.1 yn dangos mai busnesau oedd y grŵp ymatebwyr mwyaf, ac yna mudiadau masnach a mudiadau cefnogi busnes. Roedd mudiadau masnach ar gyfer amaethyddiaeth, cig, cynhyrchu bwyd a diod, lletygarwch a chefn gwlad oll wedi'u cynrychioli. Roedd saith unigolyn hefyd wedi ymateb. Roedd gweddill yr ymatebion o nifer fawr o gategorïau, fel sydd i'w weld yn y tabl.

**Tabl 2.1 Math o Ymatebwyr yn ôl Nifer a Chanran**

| Math o ymatebydd | Nifer | Canran |
|---|---:|---:|
| Busnesau | 37 | 43% |
| Mudiadau Masnach | 12 | 14% |
| Mudiadau Cefnogi Busnes | 10 | 12% |
| Unigolion | 7 | 8% |
| Prifysgolion, Colegau a Hyfforddwyr | 5 | 6% |
| Trydydd Sector | 4 | 5% |
| Mudiadau Amgylcheddol | 3 | 3% |
| Awdurdodau Lleol | 3 | 3% |
| Arall (mudiadau iechyd cyhoeddus (2), cymdeithasol, cymunedol a defnyddwyr) | 5 | 6% |
| **Cyfanswm** | **86** | **100%** |

O ran yr is-sector busnes, mae Tabl 2.2 yn dangos fod cynrychiolaeth dda o'r sector Diod, ond cryn dipyn yn llai o'r tri prif is-sector yng Nghymru (Llaeth, Cig a Becws) ymhlith yr ymatebwyr. Roedd 7 oedd ddim o sectorau bwyd.

**Tabl 2.2 Ymatebwyr Busnes yn ôl Is Sector**

| Is sector | Nifer | Canran |
|---|---|---|
| Diod | 12 | 32.4% |
| Llaeth | 5 | 13.5% |
| Delicatessen | 2 | 5.4% |
| Adwerthu | 2 | 5.4% |
| Bwyd Môr | 2 | 5.4% |
| Cwpwrdd Storio | 1 | 2.7% |
| Cig | 1 | 2.7% |
| Becws | 1 | 2.7% |
| Grawnfwyd | 1 | 2.7% |
| Melysion | 1 | 2.7% |
| Prydau Parod | 1 | 2.7% |
| Cyfanwerthu | 1 | 2.7% |
| Ddim o'r sector bwyd | 7 | 18.9% |
| Cyfanswm | 37 | 100% |

# 3. Canfyddiadau Cyffredinol

Mae'r canfyddiadau cyffredinol yn awgrymu cytundeb bras â byrdwn y strategaeth arfaethedig.

- Roedd 90% yn cytuno â'r weledigaeth a'r genhadaeth gyffredinol (n=84).
- Roedd 85%-90% yn cytuno â'r nodau allweddol. Roedd gostyngiad yn y nifer oedd yn ateb wrth fynd trwy'r cwestiynau (o 61 i 55) sy'n arferol mewn arolygon.
- Roedd 82% yn cytuno â'r targedau CAMPUS (n=49), er bod nifer o awgrymiadau ar gyfer gwella'r targedau – gweler yn diweddarach.

Roedd nifer yr ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn fychan iawn ar draws pob ardal gydag uchafswm o 6 yn anghytuno ag agweddau o'r nod pobl a chymdeithas – gweler yn diweddarach.

Nid oedd unrhyw fusnesau cynhyrchu bwyd a diod yn anghytuno ag amcanion 1 a 2 a dim ond un oedd yn anghytuno â nod 3, a'r rheswm dros anghytuno oedd eisiau ei wneud yn gyflymach.

**Tabl 3.1 Lefelau Cytuno Cyffredinol**

| Thema | Nifer yn Cytuno'n Llwyr / Cytuno | Canran ar sail nifer yr ymatebion | Nifer yn Anghytuno'n Llwyr / Anghytuno |
|---|---|---|---|
| Gweledigaeth a Chenhadaeth | 76 | 90% (n=84) | 0 |
| Datblygu ein Busnesau | 55 | 90% (n=61) | 5 |
| Budd i'n pobl a'n cymdeithas | 51 | 86% (n=59) | 6 |
| Hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd | 47 | 85% (n=55) | 3 |
| Targedau CAMPUS | 40[1] | 82% (n=49) | 0 |

[1] Awgrymodd 17 o'r 40 newidiadau i'r targedau.

# 4. Canfyddiadau ar y Weledigaeth a'r Genhadaeth

Mae’r dyfyniadau'n amlygu ystod yr ymatebion i'r teimlad ar y nod hwn:

*‘Cytunaf yn llwyr â'r weledigaeth a'r genhadaeth arfaethedig i wella sector bwyd a diod Cymru’.*
*‘Credaf ei bod yn wych cael Llywodraeth ragweithiol a chefnogol wrth ddatblygu ein diwydiant bwyd a diod’.*
*‘Cefnogi sector byd-enwog gyda chadwyni cyflenwi cyfrifol yn amgylcheddol a chymdeithasol gyda manteision i bobl.’*
*‘Rhaid rhoi blaenoriaeth i unrhyw gyfle i hyrwyddo Cymru fel cenedl bwyd ar ôl Brexit’.*
*‘Rydym yn cefnogi Brand Cymru – mae ffermwyr yn rheoli 80% o arwynebedd tir Cymru’*
*‘Cytuno ond gallai fod yn werth ychwanegu cynaliadwyedd i gryfhau elfen tarddiad’.*
*‘Mae'r cysyniad o ddatblygu Cymru fel cynhyrchydd bwyd o safon yn strategaeth ardderchog’.*
*‘Angen mwy o bwyslais ar Ymchwil a Datblygu’.*
*‘Cytuno â ‘cadwyni cyflenwi cyfrifol yn amgylchedd a chymdeithasol’ ond nid i gynyddu maint busnesau’*
*‘Grymoedd y farchnad yn gyrru'r diwydiant. Rôl y Llywodraeth yw creu sylfaen i'r sector preifat ffynnu. Bydd galw defnyddwyr yn siapio'r sector.’*
*‘Angen proffil arbenigol rhyngwladol ... gan ganolbwyntio ar y safonau amgylcheddol uchaf ynghyd â gwerth ychwanegol’.*
*‘Mae’r ffaith eich bod yn cefnogi pob busnes yng Nghymru, hyd yn oed cwmnïau micro, yn dda. Er y byddwn yn ychwanegu at dyfu ledled y DU cyn mentro’n fyd-eang.’*
*‘Mae'r ddau yn ganmoladwy ond yn anwybyddu pwysigrwydd hanfodol creu rhwydweithiau bwyd lleol a busnesau bwyd bach lleol bywiog. Dim ond trwy wneud hyn y gallwn obeithio ateb heriau'r argyfwng hinsawdd, cyflwr iechyd y genedl a thlodi cyffredinol o ran profiad bwyd.’*

Roedd sawl ymatebwr yn cydnabod ansicrwydd Brexit ar y sector ond bod angen blaengynllunio er gwaethaf hynny.

Er fod y strategaeth yn nodi ei bod ar gyfer y sector gweithgynhyrchu bwyd a diod (Rhagair – t6) cafwyd cryn drafodaeth gan ymatebwyr am yr angen am strategaeth holistig yn cwmpasu'r gadwyn gyflenwi yn ei chyfanrwydd o amaethyddiaeth i ddefnyddwyr a diwydiannau cysylltiedig fel twristiaeth a lletygarwch. Cafwyd awgrym hefyd am fwy o ffocws amgylcheddol.

Amlinellwyd yr angen am ymchwil ac arloesi i gefnogi'r sector gan nifer sylweddol, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes ar gael yng Nghymru.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, gofynnwyd i grŵp o 27 o blant 9 i 11 i weld os oeddynt yn cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r 10 ‘syniad mawr’ o weledigaeth a chenhadaeth y Llywodraeth ar gyfer dyfodol bwyd a diod yng Nghymru. Roedd mwyafrif y plant yn cytuno ag 8 o’r 10 syniad. Y ddau syniad nad oedd y mwyafrif yn cytuno â nhw oedd:

- Cynhyrchu digon o fwyd a diod yng Nghymru i fwy o bobl yn y dyfodol
- Rhoi mwy o arian at gynhyrchu bwyd a diod yng Nghymru.

Nid oedd cynhyrchu mwy yn cael ei ystyried yn beth da gan y plant a gallai arwain at fwy o lygredd, pecynnu a gwastraff.

## 4.1 Anghytuno, gwneud yn wahanol

Mae'r weledigaeth a'r genhadaeth yn glir ond yn eithaf generig. Efallai diffinio beth mae 'rhagoriaeth' yn ei olygu yng Nghymru, er enghraifft 'rhagoriaeth mewn cynnyrch o ansawdd uchel, sy'n unigryw yn rhanbarthol'.
Ystyried dyrchafu cyfrifoldeb cymdeithasol uwchlaw'r amgylchedd i amlygu'r gwahaniaeth yn null Brand Cymru.
Cenhadaeth: ystyried defnyddio'r 3 gair, Graddfa, Sgiliau a Llwyddiant Byd-eang.
Ymgorffori datblygu cynaliadwy. A yw'r twf parhaus yn gynaliadwy?
Dyfu'n gyflymach.
Mae angen i dwf gynnwys ansawdd uchel a gwella enw da.
Canolbwyntio ar ddatblygu bwydydd y dyfodol.
Rhwydweithiau bwyd lleol.
Cynyddu targedau twf ond bod yn ofalus wrth godi costau busnesau.
Sicrhau cyfrif elfennau allanol negyddol.
Cynnwys amaethyddiaeth.
Mwy o bwyslais ar y sector bwyd môr.
Mae mwy o gydweithio â'r sector lletygarwch yn gyfle i weddnewid economi Cymru. Integreiddio â'r Cynllun Gweithredu Twristiaeth Bwyd.
Angen mwy o waith i fynd i'r afael â newyn, anghydraddoldeb iechyd, gordewdra a'r argyfwng hinsawdd

## 4.2 Sylwadau eraill

Mae angen meithrin micro-gynhyrchwyr mewn marchnadoedd prif ffrwd er mwyn eu galluogi i dyfu.
Dylai'r strategaeth dynnu sylw at gryfderau ymchwil ac Arloesi Cymru.
Croesawu'r egwyddor y bydd cymorth i fusnesau ar ba ffurf bynnag yn amodol arnynt ac yn cyfrannu at les y genedl.
Er bod rhai o'r ymatebwyr yn argymell canolbwyntio'n gryf ar fwydydd o Gymru fel llaeth, diodydd, cig, bara a bwyd môr; roedd eraill yn dymuno annog cynhyrchu bwydydd yn unol â diet sy'n seiliedig ar blanhigion.
Teimlai un ymatebydd y byddai'n werth cynnwys arferion busnes moesol yn y weledigaeth.
Tynnodd un ymatebwr sylw at yr angen am ffocws ar seilwaith sylfaenol i gefnogi twf a buddsoddiad yng Nghymru

# 5 Canfyddiadau yn ôl Nodau Allweddol - Datblygu ein Busnesau

Mae rhai dyfyniadau'n amlygu ystod yr ymatebion i'r teimlad ar y nod hwn:

*‘Cydnabod yr angen i dyfu maint y sector a chynhyrchiant’.*
*‘Croesawu targedau twf a chynhyrchiant gan fod yn rhaid cael busnesau cystadleuol wrth wraidd Cymru ffyniannus’.*
*‘Mwy o gyhoeddusrwydd i gynlluniau arloesi e.e. credydau treth Ymchwil a Datblygu, Innovate UK’*
*‘Angen marchnata'r sector bwyd yng Nghymru fel canolfan ragoriaeth i ddenu pobl ifanc’*
*‘Arloesi Bwyd Cymru, Future Foods ac IBERS yn allweddol i'r strategaeth i hybu arloesedd’.*
*‘Mae’r themâu cydweithio, datblygu sgiliau, arloesi a chymorth technegol yn wych.*
*‘Mae angen dweud mwy am ffyrdd o helpu busnesau i fod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd’.*
*‘Mae cynigion gwych i gael cefnogaeth yn y sector hwn yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru mor bwysig i gynhyrchwyr’.*
*‘Mae'r pwyslais ar gynyddu cyflogaeth a sgiliau yn y diwydiant yn sylweddol, gan mai busnesau bach a chanolig sy'n gweithio mewn ardaloedd gwledig yw'r rhai mwyaf agored i niwed yn aml; Mae'n bwysig bod cyfleoedd ar gael ar gyfer busnesau bwyd i gefnogi economïau gwledig, a bod mwy a mwy o bobl yn cael eu hannog i weithio yn y diwydiant’*
*‘Mae Cymru'n cynnwys busnesau bach a dylai'r ffocws fod ar ddatblygu marchnad y DG i gryfhau dosbarthu, maint a chapasiti; yna datblygu marchnadoedd rhyngwladol’.*
*‘Mae angen i Gymru feddwl yn fwy, a mynd yn fwy at wraidd yr heriau sy'n ein hwynebu’.*
*‘Peidiwch ag anghofio'r cyfle mawr yn y sector bwyd anifeiliaid anwes yn y DG’.*
*‘Cytuno ond angen mwy o uchelgais-hefyd proffidioldeb fel metrig’.*
*‘Mae angen safleoedd fforddiadwy i sicrhau twf’.*
*‘Mae gwella effeithlonrwydd i leihau costau yn hollbwysig’.*
*‘Dylai cymorth i fusnes fod yn amodol ar gyflogaeth o ansawdd uchel, datblygu sgiliau a gwaith teg’.*

Yn gyffredinol, gwelwyd bod angen mwy o ffocws ar arloesi a'r amgylchedd. Roedd y farn yn gymysg ar y 2% yn uwch na tharged y CPI - rhai yn ei weld yn rhy uchelgeisiol gydag eraill yn ei weld fel diffyg uchelgais.

Gwelodd arolwg o 27 o blant fel rhan o’r ymgynghoriad fod 8 (30%) yn awgrymu y byddent am weithio ym maes bwyd a diod yn y dyfodol. Roedd 12 yn meddwl na fydden nhw, a 4 ddim yn siŵr.

## 5.1 Anghytuno, gwneud yn wahanol

Mae'r targed o 2% ar drosiant yn rhy isel.

Nid oes sôn am themâu megis tarddiad, arferion moesol, cyfrifoldeb cymdeithasol ac amgylcheddol yn yr adran hon sy'n drueni gan fod y farchnad hon yn fawr ac yn tyfu.
Cynnwys datblygu cadwyni cyflenwi a dulliau newydd o gyrraedd y defnyddiwr.
Angen bod yn ofalus ynglŷn ag ychwanegu cost i'r sector.
Angen datblygu system fwyd fwy gwydn yng Nghymru.
Rhaglenni bwyd drwy brofiad i helpu i werthu cynnyrch.
Dadansoddiad bwlch i nodi lle mae angen mwy o gyfleusterau prosesu.

## 5.2 Gweithgaredd ychwanegol sydd ei hangen

Hyfforddiant mewn rheoli busnes, arweinyddiaeth ac entrepreneuriaeth i fusnesau bach a chanolig a busnesau newydd. Canolfannau rhagoriaeth peirianneg a thechnoleg bwyd ym mhrifysgolion a cholegau Cymru.
Datblygu ffermio cefnfor 3D gan gynnwys gwymon, pysgod a physgod cregyn.
Datblygu amaethyddiaeth amgylchedd rheoledig.
Mentora rhwng busnesau nad ydynt yn cystadlu.
Mwy o bwyslais ar ddatblygu cynaliadwy.
Dylai gwydnwch gynnwys gwydnwch amgylcheddol.
Cymorth ariannol i fusnesau sy'n cychwyn.
Academi awtomeiddio bwyd a diod.
Cysylltiadau cryfach ag amaethyddiaeth a thwristiaeth i gyflwyno strategaeth ar y cyd.
Dynodi amcanion ymchwil hirdymor sydd o fudd i'r diwydiant.

## 5.3 Allwch chi gyfrannu?

Roedd 39 o ymatebwyr yn teimlo y gallent gyfrannu at y cynigion. Roedd sawl busnes yn teimlo eu bod eisoes yn cyfrannu drwy eu gweithgareddau busnes. Roedd y sylwadau a wnaed yn cynnwys:

- Twf mewn prentisiaethau, hyfforddiaethau a staff newydd.
- Sgiliau diagnostig Food Skills Cymru.
- Newid ymddygiad drwy ymchwil gwyddor gymdeithasol a seicoleg.
- Helpu busnesau i ddeall ymddygiad defnyddwyr o ran dewisiadau iach.
- Clwstwr cadwyn cyflenwi cig coch.
- Cysylltiadau a rhwydweithiau yn y byd academaidd, cadwyni cyflenwi bwyd a busnesau.
- Lleihau gwastraff bwyd.
- Campws Arloesi a Menter Aberystwyth i gefnogi trosglwyddo dysg o'r safle ymchwil i fusnesau.

# 6 Canfyddiadau yn ôl Nodau Allweddol – Budd i'n Pobl a'n Cymdeithas

Mae rhai dyfyniadau'n amlygu ystod yr ymatebion i'r teimlad ar y nod hwn:

*'Mae buddsoddi yn ein cyflogeion yn allweddol'*
*'Bydd hyfforddiant a gwella sgiliau yn y tymor hir ddim ond o fudd i'r gymdeithas'*
*'Cadarnhaol ond mae angen cynnwys sganio'r gorwel am ddatblygu bwyd a sgiliau yn y dyfodol yn ogystal â chodi safonau ar gyfer busnesau a mathau o fwyd sy'n bodoli eisoes'*
*Mae brandiau gyda phwrpas yn thema allweddol i lawer o frandiau newydd i gysylltu â defnyddwyr fel y gwelwyd y gynhadledd Tuck In'.*
*'Strategaeth gywir ond mae mentrau bach a chanolig a microfusnesau angen mwy o gymorth na mentrau mawr'*
*'Rydym yn meincnodi ein hunain ar sail ryngwladol mewn perthynas â'r elfennau hyn ac rydym ni a'n cadwyn gyflenwi yn cael ein harchwilio gan yr adwerthwyr byd-eang mwyaf o ran ein cydymffurfiaeth'*
*'Gellid rhoi mwy o bwyslais ar fwyta'n iach, yn enwedig ymhlith plant'.*
*'Helpu Cymru i ddod yn genedl ddiwastraff'.*
*'Angen caffael cyhoeddus doethach'.*
*'Da ond angen sicrhau nad yw cwmnïau'n cael eu gwasgu fwy gan gwsmeriaid mawr. 1. rhaid iddo beidio â bod yn wirfoddol neu ni fydd cwsmeriaid am dalu amdano. 2. Angen sylw'r wasg fel bod cwsmeriaid yn gwybod amdano. 3. Rhoi digon o amser i'w weithredu. 4. Ni ddylai fod ddim ond i Gymru, neu bydd yn tanseilio pa mor gystadleuol yw Cymru yn erbyn Lloegr.'*

Roedd nifer gyfartal o ymatebwyr oedd â safbwyntiau gwrthgyferbyniol ar y cyfan (5-10 gyda phob barn) gan bryderu ar un llaw am gynyddu costau i fusnesau fyddai yn eu gwneud yn fregus; ac eraill o'r farn fod angen i'r cynigion fod yn fwy pellgyrhaeddol a radical. Nododd un '*Cadwch y ffocws gan ei fod yn ddigon cymhleth*'.

Awgrymwyd negeseuon mwy cryno gan un fel a ganlyn:
*'Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i gefnogi busnesau sy'n dangos eu bod yn glynu wrth ddangosyddion perfformiad clir ar gyfer:*

- *Cynhyrchu bwydydd iach*
- *Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol moesol*
- *Cynaliadwyedd ac effeithlonrwydd*
- *Lleihau gwastraff*
- *Uwchsgilio a chynyddu cyflogaeth o ansawdd*
- *Integreiddio'r gadwyn gyflenwi ac egwyddorion 'diwastraff'.*

Gwelodd arolwg o 27 o blant fel rhan o'r ymgynghoriad fod 13 (48%) yn awgrymu eu bod eisoes yn cael gwybod digon am fwyta ac yfed yn iawn. Dywedodd 9 eu bod am ddysgu rhagor, a doedd 5 ddim yn siŵr. Pethau eraill roedd plant am eu dysgu oedd:

- Pa fwydydd sy'n Gymreig?
- Sut yn union mae bwydydd penodol yn gwneud i chi roi pwysau mlaen

- Sut i wneud a choginio bwydydd iach
- Hanes pryd a ble darganfuwyd gwahanol fwydydd
- Pwy feddyliodd am wahanol ryseitiau?

## 6.1 Anghytuno, gwneud yn wahanol

Angen mwy o bwyslais ar y manteision i'r diwydiant gan fod yr elw'n dynn.
Gofal wrth gynyddu costau'r busnes yn erbyn cryfhau ymhellach a bod yn fwy radical.
Angen diffinio cyflog byw fel y Cyflog Byw Go Iawn a osodir gan y Sefydliad Cyflog Byw.
Mae tlodi mewn gwaith yn fater sy'n gofyn am y Cyflog Byw Go Iawn.
Ehangu'r cyfleoedd cymdeithasol a chymunedol y tu hwnt i SHEP. Dylai busnesau ymgysylltu â mentrau bwyd lleol a chymunedol bach i greu diwylliant bwyd lleol.
Edrych ar y niwed y mae busnesau bwyd a chadwyni cyflenwi traddodiadol yn ei wneud i iechyd y boblogaeth a'r amgylchedd.
Mwy o bwyslais ar dargedau amgylcheddol a deiet sy'n seiliedig ar blanhigion.
Angen mynd i'r afael â delwedd y diwydiant i newydd-ddyfodiaid
Canolbwyntio ar hyfforddiant mewn ardaloedd difreintiedig.
Pryder bod angen i fusnesau gael staff asiantaeth dibynadwy.
Mynd i'r afael â natur dymhorol i wella cyfleoedd gwaith trwy gydol y flwyddyn
Cynnwys newid ymddygiad ymhlith defnyddwyr tuag at gynnyrch iachach.
Gwneud cydymffurfiaeth â'r mesurau yn orfodol er mwy i fusnesau dderbyn cymorth grant.
Edrych ar darddiad i gynyddu'r bwyd o Gymru sy'n bwydo pobl Cymru.
Llai o fwyd afiach.

## 6.2 Gweithgaredd ychwanegol sydd ei hangen

Mwy o gydnabyddiaeth i allu cynhyrchiol naturiol Cymru, cynhyrchu glaswelltir, a chig coch a gaiff ei bori'n gynaliadwy. Cefnogi lladd-dai llai prysur i gyflenwi'r marchnadoedd annibynnol a chrefft.
Cydnabod yr angen i gynhyrchu bwyd a deiet iachach yng Nghymru.
Targedau amgylcheddol e.e. dim CO2 net, gostyngiad o 50% mewn methan erbyn 2030, llai o filltiroedd bwyd a llai o fewnforion o fwydydd carbon uchel.
Dulliau ailgylchu cyson ledled Cymru.
Atal bwyd dros ben rhag mynd i safleoedd tirlenwi drwy fenter fel FareShare Cymru.
Mwy o hyrwyddo cynnyrch lleol a chysylltiadau â'r iaith Gymraeg.
Sylw i iechyd meddwl yn y gweithlu.
Angen gwaelodlin ar gyfer y dangosyddion a mwy ymchwil a datblygu.
Angen i'r strategaeth weithio gyda chynllun Pwysau Iach: Cymru Iach
Angen gwella delwedd gweithio yn y sector, a llwybrau gyrfa clir ar gyfer prentisiaid a hyfforddiant i reolwyr
Dylai cwricwlwm yr ysgol gefnogi'r llwybr gyrfa'n llawn

## 6.3 Allwch chi gyfrannu?

Roedd 33 o ymatebwyr yn teimlo y gallent gyfrannu at y cynigion. Mae gan nifer ohonynt weithgareddau parhaus yng Nghymru, fel cymorth busnes sydd eisoes yn cyfrannu. Roedd cyfraniadau penodol eraill a grybwyllwyd yn cynnwys:

- Eisoes yn talu mwy i gadw staff.
- Cymryd staff ychwanegol ymlaen.
- Gallai Sgiliau Bwyd Cymru helpu i fonitro targedau ar addewidion.
- Lleihau neu ddod o hyd i ddiben arall i wastraff bwyd drwy FareShare Cymru.
- Dod ag arweinwyr syniadau at ei gilydd.

# 7 Canfyddiadau yn ôl Nodau Allweddol – Hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd

Mae rhai dyfyniadau'n amlygu ystod yr ymatebion i'r teimlad ar y nod hwn:

*'Cyd-fynd 100% â'r cynigion hyn'.*
*'Mae ein daearyddiaeth a'n Cymreictod yn rhoi mantais enfawr inni'.*
*'Nid yw 80% o'n tir yn addas ar gyfer cnydau ond mae'n addas i gynhyrchu glaswellt ar gyfer protein cig a llaeth.'*
*'Ffocws hollol gywir gan fod defnyddwyr yn chwilio'n gynyddol am ansawdd'.*
*'Bydd pecyn Cymru gyfan yn ychwanegu gwerth at ymdrechion marchnata Cymru yn rhyngwladol'.*
*'Tîm Cymru – beth am gael cerdyn addewid i fusnesau'.*
*'Rhai o'r busnesau bwyd a diod gorau ond … mae cysylltiadau logistaidd yn dal yn rhwystr'.*
*'Mae safonau cynhyrchu uchel gyda thystiolaeth wedi'i harchwilio e.e. trwy SALSA a BRC yn hanfodol ar gyfer hyder yn y gadwyn gyflenwi'.*
*'Mae angen i frand Cymru fynd y tu hwnt i'r status quo i gynnwys targedau bioamrywiaeth uchelgeisiol, rheoli adnoddau cynaliadwy a safonau uwchlaw'r gwaelodlin rheoliadol'.*
*'Creu system achredu bwyd ar gyfer Cymru o bosib gyda symbol draig Llywodraeth Cymru i'w defnyddio gan gwmnïau achrededig fel nod ansawdd, masnachu moesol, arferion cyflogaeth teg ac ati.'*

Roedd teimlad fod angen manteisio i'r eithaf ar y farchnad ddomestig yn ogystal â'r marchnadoedd allforio a bod angen i darddiad ac ansawdd fod wrth wraidd y gwaith o sicrhau cynllun clir ar gyfer enwau bwyd i ddilyn y Dynodiad Daearyddol Gwarchodedig. Teimlai un ei fod yn ddechrau da ond bod angen mynd ymhellach. Nododd rhywun arall y bydd safonau cynhyrchu uchel yn hanfodol ar ôl Brexit. Nododd un yr angen i roi gwerth ar bob cynnyrch o Gymru, gan gynnwys nwyddau moethus, gan eu bod yn bwysig i allforion fel cynhyrchion moethus o ansawdd a gwerth uchel. Roedd hyn mewn ymateb i sylwadau mai dim ond bwydydd iach ddylai Cymru eu cynhyrchu. Nododd un arall bwysigrwydd cael y gwerth mwyaf o gynhyrchu nwyddau Cymreig. Roedd llawer yn ystyried bod blas Cymru wedi'i sefydlu fel corff sydd â rôl bwysig yn hyrwyddo Cymru.

Thema gref yn yr ymatebion oedd yr angen am ddull ar y cyd o hyrwyddo bwyd thwristiaeth, gan ystyried diwylliant, amgylchedd a tharddiad Cymreig, yn cynnwys cyswllt cryf â ffermio a chynyddu cynnyrch lleol mewn siopau lleol ar gyfer twristiaid

Roedd dau yn cwestiynu os oedd allforio cig oen yn gynaliadwy o ystyried yr argyfwng hinsawdd, gan awgrymu pwyslais ar ddeiet iach a deiet seiliedig ar blanhigion gydag effaith amgylcheddol isel.

Nododd un fod sawl categori allweddol yn wan yng nghadwyn cyflenwi Cymru megis byrbrydau neu fyrbrydau iach. Un her yw datblygu cwmnïau sy'n cynhyrchu nwyddau

categorïau poblogaidd ar y funud. Gyda marchnata cryf, teimlwyd y gallai'r rhain ddod yn straeon llwyddiant yn y DG ac yn rhyngwladol.

Codwyd pwysigrwydd caffael cyhoeddus gan gynnwys gofyniad 'lleol' mewn contractau gan sawl un. I fusnesau, nodwyd yr angen i gael hyder i fuddsoddi, gan fod nifer o fusnesau'n dod o fentrau bychain.

Cafwyd trafodaeth hefyd am addysgu prynwyr, plant ysgol ac oedolion am fanteision bwyd a diod lleol.

Byddai ehangu cynlluniau sicrwydd i hybu lles anifeiliaid, gwella'r amgylchedd ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion yn cael ei groesawu.

Gwelodd arolwg o 27 o blant fel rhan o'r ymgynghoriad fod 20 o blaid y cynnig hwn. Pice ar y Maen oedd y cynnyrch Cymreig mwyaf poblogaidd a enwyd, a theimlwyd eu bod yn haeddu enw gwarchodedig. Teimlwyd y gellid defnyddio'r cennin pedr, fel symbol Cymreig, ar labeli bwyd a diod i ddangos eu bod o Gymru.

## 7.1 Anghytuno, gwneud yn wahanol

Ei wneud yn gyflymach
Sicrhau bod gan fusnesau sy'n mynd i sioeau masnach tramor y gallu i dyfu.
Gosod safonau cynhyrchu uwch.
Hyrwyddo technoleg bwyd fel gyrfa.
Mwy o gyd-weithio ar draws adrannau'r Llywodraeth.
Gwella safonau bwytai Cymru a'r defnydd o gynnyrch lleol.
Cael Blas Cymru yng ngogledd Cymru.

## 7.2 Gweithgaredd ychwanegol sydd ei hangen

Dylid cyfeirio at iechyd dynol a'i gysylltu â diet Cymru i roi neges iechyd sy'n debyg i ddeiet Môr y Canoldir. Mae gan Gymru yr holl elfennau i wneud hyn.
Datblygu ardystiad cynaliadwy/ecogyfeillgar Cymreig i ffermydd sydd â bioamrywiaeth ychwanegol ac ati.
Dylai'r strategaeth ddynodi'r marchnadoedd twf tramor a datblygu cynllun i bob un gyda chymorth busnes sy'n canolbwyntio ar y tiriogaethau hyn.
Defnyddio cymdeithasau Cymreig i hyrwyddo bwyd a diod o Gymru dramor.
Dull wedi'i gydlynu fwy ar gyfer hysbysebu, y cyfryngau cymdeithasol, digwyddiadau ayb gyda thema gyffredin ac yn canolbwyntio ar Blas Cymru.
Hyrwyddo yng ngwyliau bwyd Lloegr.
Mwy o arddangos cynnyrch Cymru o is-sectorau llai amlwg.
Mwy o gysylltu a rhannu adnoddau ar draws sefydliadau gan gynnwys y Llywodraeth ac eraill.
Datblygu mwy o gynnyrch sy'n dilyn tueddiadau cyfredol.
Mwy arolygiadau Iechyd yr Amgylchedd i ganfod cynnyrch ffug.
Gellid cofnodi materion datblygiad proffesiynol parhaus trwy Sgiliau Bwyd Cymru.

Cyswllt â'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion i addysgu am fwyd. Hyfforddi'r gweithlu ar ddeiet cytbwys, cyllidebu, siopa, coginio a chynllunio prydau bwyd. Ymchwil a Datblygu ar gyfer grwpiau anodd eu cyrraedd ar annog amgylchedd bwyd iach.
Mwy o ffocws ar gadwyni cyflenwi lleol byr iawn cynaliadwy ac ymwybyddiaeth leol a dathlu bwyd lleol iawn.

## 7.3 Allwch chi gyfrannu?

Roedd 36 o ymatebwyr yn teimlo y gallent gyfrannu at y cynigion. Ar wahân i fusnesau unigol yn 'gwneud eu rhan eu hunain', roedd cyfraniadau penodol a grybwyllwyd yn cynnwys:

- Ymchwil Prifysgol i ddatblygu a diffinio'r 'deiet Cymreig iach' sy'n debyg i ddeiet Môr y Canoldir
- Adolygiad busnes cynaliadwy i helpu cwmnïau i fod yn fwy cynaliadwy www.sbreview.co.uk
- Profiad i fyfyrwyr mewn busnesau
- Rhannu gallu Prifysgol yn ehangach o fewn busnesau
- Helpu cwmnïau eraill yn yr un is-sector
- Datblygu'r clystyrau
- Darparu ymchwil ar darddiad, brandiau tarddiad a defnyddio natur wasgaredig i yrru allforion
- Helpu i ddarparu achrediadau busnes
- Platfform digidol i arddangos brandiau a tharddiad Cymreig
- Grŵp o 30 o fusnesau sydd ddim yn cystadlu â'i gilydd yn gweithio ar faterion yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi a mentora arweinwyr busnes eraill

## 7.4 Sylwadau eraill

Mae angen i archfarchnadoedd mawr a chwmnïau gwasanaethau bwyd gymryd rhan yn y drafodaeth
Rhan o natur nodedig Cymru yw'r busnesau bach. Gall eu hannog i dyfu golli arbenigrwydd a'u natur unigryw.
Arloesi, mentro a deori.
Yn aml yn gorfod neidio drwy'r felin i gael cymorth.
Mae SBV yn ymddangos fel pe bai'n canolbwyntio ar y farchnad ddomestig nid ar allforio
Mae cydweithredu ar draws y gadwyn gyflenwi yn hanfodol.

# 8 Canfyddiadau ar dargedau CAMPUS

Fel y nodwyd yn gynharach, rhoddodd 49 o'r ymatebwyr sylwadau ar y targedau CAMPUS gyda nifer fawr (82%) yn cytuno drwyddi draw. Awgrymwyd nifer o ddiwygiadau i'r targedau neu dargedau amgen/ychwanegol fel y nodir isod.

## 8.1 Sylwadau cyffredinol

Teimlai'r rhan fwyaf mai'r rhain oedd y targedau cywir a nododd un fod '*gweledigaeth glir o'r hyn sy'n rhaid cyflawni*' gan ddweud '*ni ddylai Brexit wneud i ni ddal nôl'.* Roedd nifer o'r ymatebwyr yn teimlo bod angen mwy o uchelgais yn gyffredinol – cyrraedd targedau'n gynt neu ar lefel uwch. Nododd un nad oedd y rhain yn 'dargedau', ond yn hytrach yn ddangosyddion. Gwnaeth sawl un sylw ar yr angen i gadw safonau yn gyson â gweddill y DU.

Nododd sawl un fod angen polisi wedi'i gydlynu'n well rhwng bwyd a diod, yr amgylchedd, iechyd a lles, amaethyddiaeth a rheoli tir. Teimlwyd ei bod yn anffodus fod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar yr un pryd â'r un ar Reolaeth Tir Cynaliadwy. Teimlwyd y dylid cynllunio'r targedau i annog a ffafrio cynnyrch cynradd Cymreig yn y sector cynhyrchu a bod yn glir ynghylch y gwerth aiff yn ôl i ffermwyr Cymru.

Nododd sawl un nad oedd unrhyw dargedau yn ymwneud â rheoli adnoddau naturiol, yn cynnwys tir, yn gynaliadwy. Tynnwyd sylw hefyd at y potensial i dargedau economaidd wrthdaro ag amcanion amgylcheddol a rheoli tir.

Nododd un busnes fod '*achrediad yn feichus ac nad yw cwsmeriaid yn gofyn amdano*' ac mai ychydig iawn o wastraff oedd ganddynt. Dim rhain oedd y targedau iawn iddyn nhw.

## 8.2 Materion yn ymwneud â thargedau

**Targed 1** – roedd 3 ymatebydd yn teimlo y gallai fod yn rhy geidwadol. Teimlwyd fod diffyg data gwaelodlin yn broblem. Teimlai un y gellid olrhain a deall methiannau busnes a'r rhesymau dros fethu.

**Targed 2** – teimlwyd fod diffyg targed GYC cadarn sydd wedi'i gysylltu â mynegai i Gymru, yn enwedig ym ymwneud â safle Cymru o'i gymharu â gweddill y DG. Teimlai un nad oedd hwn yn darged y byddai busnesau'n ei adnabod ac y gallai elw y kg fod yn well neu'n rhywbeth y gall busnesau asesu eu cyfraniad yn ei erbyn. Holodd un beth oedd y gwaelodlin. '*Beth yw'r twf blynyddol? Er enghraifft, mae cynnydd o 0.1% yn dwf – ond a fyddai hyn yn dderbyniol?*'

**Targed 3** – ychydig iawn roddodd ffigurau penodol ar gyfer W, X, Y, Z. Awgrymodd un *nifer* yr unigolion a fyddai'n elwa o'r adduned sgiliau neu'r cyflog byw. Awgrymodd un arall y dylid sicrhau 100% ar gyfer pob targed.

W – Adduned Sgiliau – nid oedd un yn siŵr am yr addunedau, gan nad oedd gorfodaeth i'w cyflawni
X – Cytundeb Courtauld i 50% o fusnesau. Awgrymodd WRAP, yn hytrach na Courtauld, y gallai targed ar gyfer ymrwymiad i'r Map Lleihau Gwastraff Bwyd a'r TMA (Targedu, Mesur, Gweithredu) gynnwys:

- 100% o fusnesau cynhyrchu bwyd mawr i ymrwymo a gweithredu'r map Lleihau Gwastraff Bwyd erbyn 2026
- 50% o fusnesau canolig erbyn 2026

Y – dylai 100% o fusnesau Cymru dalu'r cyflog byw – cael ei weld yn uchelgeisiol iawn gan lawer, yn enwedig ar gyfer busnesau elw isel ac yn 'risg enfawr'. Awgrymodd un y dylai'r Cyflog Byw Go Iawn gymryd lle'r Cyflog Byw Cymreig. Awgrymodd un arall y gallai lleihau contractau dim oriau fod yn darged gwell.
Z – rhaglen cyfoethogi Gwyliau Ysgol 40% – awgrymodd sawl un y dylai hyn fod yn llai penodol ac yn ymwneud mwy â chyfrannu tuag at y gymuned mewn ffyrdd eraill gyda chanran o holl amser staff neu drosiant.

**Targed 4** – roedd dryswch am y geiriad - a yw'n golygu y byddai gan 80% BRC ar y diwedd neu 50%? Beth yw nifer y busnesau y mae 30% yn eu cynrychioli? Nid yw'r ffaith mai rhif yw'r targed (300) a'r wybodaeth yn cael ei rhoi mewn % yn caniatáu gwneud cymhariaeth ystyrlon. Awgrymwyd mwy o uchelgais *'nid yw targed o 50% mewn 6 blynedd yn gyson â Chenedl Bwyd - byddwn i'n edrych tuag at 75% mewn 6 blynedd'.* Awgrymodd un arall darged o 100%.
Teimlwyd y gallai fod yn anodd ei gyflawni i ficro fusnesau ac y byddai angen cymorth ariannol i gyflawni achrediad. Cydnabuwyd hefyd fod achrediadau yn ysgogi cynhyrchiant, ac felly bod y targedau wedi'u cysylltu.

**Targed 5** – teimlai sawl un y dylai safonau hylendid bwyd uchel fod yn ffactor sylfaenol, ac felly a yw hwn mewn gwirionedd yn darged? Hefyd, os yw'r sector yn 88% erbyn hyn, gall y 12% olaf fod yn anodd i'w gyflawni. Teimlai un y dylid targedu gwelliant ar gyfer y rhai â llai na 3. Teimlai rhywun arall fod angen i'r targed fod yn fwy penodol, '*dylai 95% fod yn 100% gyda sgôr hylendid o 4 neu fwy erbyn dyddiad cynharach na 2026'*.

Teimlwyd fod safonau Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn wahanol ledled Cymru, a gellid bod and angen hyfforddiant, er y gwelir fod angen rhagor o swyddogion Iechyd yr Amgylchedd i gynnal yr arolygiadau mewn gwirionedd.

## 8.3 Targedau a dangosyddion eraill i'w hystyried

Awgrymwyd amrywiaeth eang o gynigion fel y nodir isod:
Targed 1 Elw'r targed proffidioldeb neu elw i bob kg a gynhyrchir.
Targed 2 a ddylai fod yn gynnydd fesul uned a werthir nid fesul awr a weithiwyd?
Targedau 4 a 5 - Gallai lefelau FDI, allforion a chydweithredu rhyngwladol ddisodli'r targedau hyn.
Cyfraddau arloesi (cynnyrch a phrosesau newydd i'r cwmni a newydd i'r farchnad).
Credyd treth ymchwil a datblygu a/neu sicrhau cyllid ymchwil a datblygu.

Targedau amgylcheddol gan gynnwys cydnabod rôl ddeuol cynhyrchu da byw o ran lleihau effeithiau amgylcheddol e.e. storio carbon yn y pridd ac annog cynefinoedd yr ucheldir drwy bori gwartheg.

Prynu cynnyrch Cymreig a/neu gynnyrch a wnaed yng Nghymru trwy gaffael cyhoeddus.

Nifer y cwmnïau Cymreig mewn tablau cynghrair busnes cydnabyddedig e.e. 250 Uchaf y Sunday Times.

Targed awtomeiddio.

Grym marchnata effeithiol wedi'i gysylltu â gwerthiant.

Lleihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd adnoddau e.e. gwybodaeth ailgylchu ar becyn, lleihau defnydd dŵr a chynllun dychwelyd blaendal Prydain ar gyfer pecynnau.

Systemau bwyd cynaliadwy, iechyd, diogelwch, lles anifeiliaid ac effaith amgylcheddol.

Cyfran y cwmnïau sy'n bargeinio ar y cyd.

Targedau penodol ar gyfer allyriadau nwyon tŷ gwydr bwyd a diod Cymru, a lefelau newyn yng Nghymru.

Dangosydd cynhyrchu bwyd cenedlaethol gan fod Cymru ond yn cynhyrchu 60% o'i bwyd a hynny'n gostwng.

Mwy o addysg bwyd.

Mwy o farchnadoedd lleol mewn ysgolion.

Cynigion bwyd iachach ar gael ac yn cael eu dewis.

Mwy o bwyslais ar gadwyni cyflenwi byr a chynhyrchu/defnydd lleol.

Mwy o ffocws ar y sector cig hela a'i gyfraniad posibl.

Awgrymodd un gyfres lawn o dargedau amgen:

1) Cynnydd mewn buddsoddiad o £1 miliwn y flwyddyn mewn hyfforddiant sgiliau a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y sector bwyd-amaeth yng Nghymru
2) Cynnydd o 2% y flwyddyn yng nghynhyrchiant y sector bwyd-amaeth drwyddi draw
3) Gwelliant o 3% y flwyddyn yn lefelau clefyd y siwgr a chlefyd y galon
4) Gostyngiad o 3% y flwyddyn yn allyriadau nwyon tŷ gwydr y sector bwyd-amaeth
5) Gostyngiad o 5% y flwyddyn mewn llygredd gwasgaredig o'r sector fwyd-amaeth
6) Gostyngiad o 75% mewn gwastraff na ellir ei ailgylchu o'r diwydiant bwyd-amaeth mewn 10 mlynedd
7) Gostyngiad o 4% y flwyddyn mewn gwastraff bwyd

# 9 Atodiad 1: Cwestiynau'r Ymgynghoriad

**Pennod 1: Ein Gweledigaeth a'n Cenhadaeth**

**Cwestiwn 1:** Beth yw eich barn chi am ein gweledigaeth a'n cenhadaeth arfaethedig?

**Cwestiwn 2:** Os nad ydych yn cytuno â'r weledigaeth a'r genhadaeth arfaethedig, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

**Cwestiwn 3:** Unrhyw sylwadau eraill?

**Pennod 2: Datblygu ein Busnesau**

**Cwestiwn 4:** Beth yw eich barn chi am ein cynigion?

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno â'r meysydd rydym wedi dweud sydd angen cymorth a'r ymrwymiad sydd angen i fusnesau ei wneud?

**Cwestiwn 6:** Os nad ydych yn cytuno â'r meysydd neu'r ymrwymiad a nodwyd, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

**Cwestiwn 7:** A oes angen gweithgaredd arall sydd heb ei nodi gennym?

**Cwestiwn 8:** Allwch chi gyfrannu at gyflawni ein cynigion?

**Pennod 3: Budd i'n Pobl a'n Cymdeithas**

**Cwestiwn 9:** Beth yw eich barn chi am ein cynigion?

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno â'r meysydd rydym wedi dweud sydd angen cymorth a'r ymrwymiad sydd angen i fusnesau ei wneud?

**Cwestiwn 11:** Os nad ydych yn cytuno â'r meysydd neu'r ymrwymiad a nodwyd, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

**Cwestiwn 12:** A oes angen gweithgaredd arall sydd heb ei nodi gennym?

**Cwestiwn 13:** Allwch chi gyfrannu at gyflawni ein cynigion?

**Pennod 4: Hyrwyddo Cymru fel Cenedl Fwyd**

**Cwestiwn 14:** Beth yw eich barn chi am ein cynigion?

**Cwestiwn 15:** Ydych chi'n cytuno â'r meysydd rydym wedi dweud sydd angen cymorth a'r ymrwymiad sydd angen i fusnesau ei wneud?

**Cwestiwn 16:** Os nad ydych yn cytuno â'r meysydd neu'r ymrwymiad a nodwyd, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol?

**Cwestiwn 17:** A oes angen gweithgaredd arall sydd heb ei nodi gennym?

**Cwestiwn 18:** Allwch chi gyfrannu at gyflawni ein cynigion?

**Pennod 5: Y bartneriaeth rydym am ei chael â'r sector bwyd a diod**

**Cwestiwn 19:** A oes gennych unrhyw sylwadau eraill?

**Cwestiwn 20:** Beth yw eich barn am y Targedau CAMPUS?